# Casgliad data 2017 Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (RhDGGCC): Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir

Data Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Crynodeb 2


Cefndir 3

Deall y data 4

Atodiad A – Y ffurflen casglu data 12

Atodiad B - Tablau ychwanegol 13

Cynhyrchwyd gan yr: Data **Cymru**
Cyhoeddi: Tachwedd 2018
www.data.cymru
029 2090 9500
ymholiadau@data.cymru
Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.




Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf casglwyd y data hwn yn genedlaethol, roedd nifer o faterion ansawdd data a fydd yn effeithio ar ddilysrwydd yr amcangyfrifon uchod.
*Rhoddodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol ac, gan nad ydym yn sicr o nifer y darparwyr yn ôl y math o ddarpariaeth yn yr awdurdodau lleol hyn, rydym wedi gwahardd eu data o'r adran hon.

## Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol o gasgliad data gweithlu gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) Gofal Cymdeithasol Cymru 2017. Ei nod yw helpu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac awdurdodau lleol i ddeall y gweithlu yn well.
- Mae gwasanaethau a reoleiddir  yn wasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol Cymru ac yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiad Gofal Cymru (AGC).
- Cymerodd pob un o 22[1] awdurdod lleol Cymru ran yng nghasgliad 2017 a darparu ymatebion.
- Gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf casglu'r data hwn yn genedlaethol, fel y rhagwelwyd roedd nifer o broblemau o ran ansawdd y data. O ganlyniad, mae lefel y dadansoddiad rydym wedi gallu ei gynnal yn gyfyngedig.
- Nid ydym yn sicr am gyfran y sector gwasanaethau a reoleiddir mae'r data yn ei chynrychioli. O ganlyniad, ni fu modd i ni amcangyfrif am unrhyw wasanaethau 'coll'. Gan hynny, mae ein dadansoddiad wedi canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny a gynhwyswyd yn y casgliad. Fodd bynnag, dylai'r ffigurau hyn gael eu defnyddio'n ofalus.
- Cynhwysir o leiaf 130[2] o wasanaethau a reoleiddir ac ychydig o dan 11,000 o staff yn y dadansoddiad hwn.
- O'r gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir, roedd ychydig dros ddau o bob tri yn cyflogi 50 neu lai o staff.
- O'r 11,000 o staff a gyflogwyd gan y gwasanaethau a reoleiddir hyn:
    - roedd y mwyafrif (35%) yn 51-60 oed;
    - roedd bron 90% yn fenyw; a
    - gall 1 ym mhob 6 gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg.

[1] Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

[2] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol. Nid ydym yn sicr faint o ddarparwyr sydd wedi eu cynnwys yn eu hatebion.

# Cefndir

Bob blwyddyn mae awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am weithlu darparwyr gofal cymdeithasol allanol sy'n cael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau gan awdurdodau lleol Cymru.

Ers 2013, mae Cyngor Gofal Cymru (CCW), sydd bellach yn cael ei alw'n Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)[3], wedi ein comisiynu ni, Data **Cymru** (Uned Ddata Cymru gynt), i weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am weithlu'r darparwyr gofal hyn a gomisiynwyd [4].

Yn hwyr yn 2017, estynnwyd y gwaith casglu a dadansoddi data'r gweithlu i gwmpasu gweithlu gwasanaethau awdurdodad lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd ym mherchnogaeth awdurdodau lleol Cymru a/neu'n cael eu rheoli ganddynt ac sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r casgliad am wasanaethau  a reoleiddir.

[3] Unodd Cyngor Gofal Cymru â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) ar 1 Ebrill 2017 i greu Gofal Cymdeithasol Cymru.

[4] Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd: https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/adroddiadau-ar-y-gweithlu

# Deall y data

Gofynnwyd i awdurdodau lleol arolygu holl wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir (gwasanaethau a reoleiddir) h.y. gwasanaethau sy'n cyflenwi gofal cymdeithasol yng Nghymru, a reolir gan awdurdodau lleol Cymru ac a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Gallai hyn gynnwys darparwyr gofal preswyl, darparwyr gofal cartref a gofalwyr maeth awdurdodau lleol, ond nid yw'n cynnwys gwasanaethau gofal dydd.

Cawsom ymatebion oddi wrth bob un o'r 22[5] awdurdod lleol.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd i gyd wedi eu seilio ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn y flwyddyn bresennol. Am mai dyma flwyddyn gyntaf y casgliad, nid oeddem yn gallu cynnig yr opsiwn i awdurdodau lleol 'adeiladu'r' data gan ddefnyddio data sydd ar gael yn lleol o 2016.

Gwelir copi o ffurflen casglu data 2017 yn **Atodiad A**.

## Ansawdd data

Gan mai hon oedd blwyddyn gyntaf casglu'r data hwn yn genedlaethol, fel y rhagwelwyd roedd nifer o broblemau o ran ansawdd y data. Er enghraifft, roedd diffyg eglurdeb i ddechrau am ba wasanaethau a ddylai gael eu cynnwys. Arweiniodd hyn at lawer o'r awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth am wasanaethau anreoleiddiedig awdurdodau lleol. Roeddem yn gallu datrys y mwyafrif o'r materion hyn mewn cydweithrediad â Gofal Cymdeithasol Cymru a swyddogion awdurdodau lleol ac rydym, felly, yn rhesymol hyderus bod y mwyafrif o'r gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn cydymffurfio â'r diffiniad o wasanaethau a reoleiddir.

Fodd bynnag, er gwaethaf proses ddilysu drylwyr, mae nifer o broblemau o hyd, a'r ddau bennaf yw:

- **Anghysondeb yn y modd cafodd yr wybodaeth ei darparu**: darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol yn hytrach na darparu'r wybodaeth ar lefel gwasanaethau unigol. Roedd hyn yn golygu, yn yr achosion hyn, nad oedd modd i ni ddadansoddi'r wybodaeth fesul math o ddarparwr (preswyl/cartref, ac ati), math o gleient a maint y sefydliad.
- **Ansicrwydd am faint o ymatebion a oedd 'ar goll'**: oherwydd natur y data a ddarparwyd a'r ymarfer glanhau a gynhaliom am yr ymatebion, nid ydym yn sicr am gyfraddau ac, felly, canran y sector gwasanaethau a reoleiddir mae'r data yn ei chynrychioli. Hefyd nid oedd modd i ni amcangyfrif y data sydd ar goll, a olygodd nad oedd modd i ni ddarparu amcangyfrifon wedi eu dilysu am gyfanswm gweithlu'r gwasanaethau  a reoleiddir.

Yn gryno, mae'r materion ansawdd hyn wedi cyfyngu'r dadansoddiad rydym wedi gallu ei wneud.

Os bydd y casgliad hwn yn parhau, byddem yn rhagweld gwelliant sylweddol yn ansawdd y data am y byddem yn gallu gweithio gydag awdurdodau lleol i atal problemau tebyg rhag codi.

## Cyfraddau ymateb

Yn gyfan gwbl, derbyniom ymatebion gan o leiaf 130[6] o wasanaethau  a reoleiddirrheoleiddiedig. Gwelir data am nifer y gwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn fesul awdurdod lleol yn **Tabl 2 Atodiad B**. Fel y nodwyd uchod, nid ydym yn sicr pa gyfran o'r gwasanaethau a reoleiddir mae'r ymatebion yn ei chynrychioli.

---

[5] Mae Blaenau Gwent a Chaerffili yn cynnal gwasanaeth ar y cyd.

[6] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol.  Nid ydym yn sicr faint o ddarparwyr sydd wedi eu cynnwys yn eu hatebion.

# Dadansoddi'r data

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn unig. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfran yn unig o'r sector gwasanaethau a reoleiddir ac, fel y cyfryw, dylent gael eu defnyddio gyda gofal.

## Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a Reoleiddir Math o ddarpariaeth

Ledled Cymru, roedd y mwyafrif (51%) o wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn darparu gofal preswyl yn 2017. Darparodd 20% ofal cartref a darparodd 9% wasanaethau dydd a gwasanaethau eraill. Roedd y mwyafrif o'r ggwasanaethau a reoleiddir a oedd yn darparu gwasanaethau dydd ac eraill yn wasanaethau maeth. Darparodd 20% o wasanaethau a reoleiddir gyfuniad o wasanaethau[7].

### Cleientiaid

Yng Nghymru, darparodd 22% o wasanaethau a reoleiddir wasanaethau i blant, darparodd 46% wasanaethau i oedolion[8] a darparodd 61% wasanaethau i bobl hŷn. Darparodd 3% wasanaethau i grwpiau cleientiaid 'eraill'[9,10].

### Maint y sefydliad

Cyflogai'r mwyafrif (41%) o wasanaethau a reoleiddig yng Nghymru rhwng 26 a 50 o staff. Cyflogai 13% fwy na 100 o staff, tra bod dim ond 2% yn cyflogi llai na deg o staff [11].

## Proffil staff

### Rolau

Gweithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwywyr Gofal oedd y mwyafrif (57%) o'r staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddigyng Nghymru, fel y dangosir yn **Ffigur 1**. Nid oedd unrhyw Staff Nyrsio Cofrestredig, Gofalwyr Lleoliad Oedolion na Chynorthwywyr Personol Taliad Uniongyrchol yn cael eu cyflogi gan wasanaethau a reoleiddig  yng Nghymru.

---

[7] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol. Rydym yn ansicr am nifer y darparwyr yn ôl math o ddarpariaeth yn yr awdurdodau lleol hyn ac felly wedi hepgor eu data o'r adran hon.


[8] Mae 'oedolion' yn cynnwys oedolion ag anableddau dysgu, oedolion â salwch meddwl ac oedolion ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau.

[9] Darparodd un awdurdod lleol ymateb cyfunol. Rydym yn ansicr am nifer y darparwyr fesul grŵp cleientiaid ac felly wedi hepgor eu data o'r adran hon.

[10] Gan y gall darparwyr ddarparu gwasanaethau i fwy nag un grŵp cleientiaid, mae'n bosibl na fydd data yn adio i 100%.

[11] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol. Rydym yn ansicr am nifer y darparwyr yn ôl maint yn yr awdurdodau lleol hyn ac felly wedi hepgor eu data o'r adran hon.


**Ffigur 1: Canran y staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017**[12]




## Cymwysterau

Dengys **Ffigur 2** ganran y staff o fewn gwasanaethau a reoleiddig  yr adroddwyd bod ganddynt y cymwysterau gofynnol/a argymhellir am eu rôl.

**Ffigur 2: Canran staff o gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2017**




[12] Mae staff eraill yn cynnwys unrhyw staff eraill sydd heb eu cynnwys yn y rolau eraill e.e. garddwyr, gyrwyr ac ati.

Gwelir manylion pellach am wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ôl rôl am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 6 Atodiad B**.

Roedd gan 88% o staff a gyflogwyd fel uwch weithwyr gofal y cymwysterau gofynnol/a argymhellir. Roedd hyn yn amrywio o 100% mewn naw awdurdod lleol i 50% yn Sir y Fflint.

Yn yr un modd, roedd gan 89% o reolwyr gwasanaethau a reoleddir o bobl rhan o Gymru y cymwysterau gofynnol/a argymhellir, gan amrywio o 56% yn Sir Fynwy i 100% yn y mwyafrif o awdurdodau lleol eraill.

Cyflawnodd 5% o staff gwasanaethau a reoleddir eu cymwysterau gofynnol/a argymhellir yn ystod 2017, tra bod 6% o staff yn parhau i weithio tuag atynt.

## Recriwtio a chadw


Cafodd dros 800 o staff eu recriwtio gan wasanaethau a reoleiddir a gadawodd ychydig o dan 800 o staff wasanaethau a reoleiddir yn ystod y flwyddyn[13]. Gan ei bod yn bosibl bod rhai staff wedi cael eu recriwtio **ac** wedi gadael yn ystod y flwyddyn, mae'n anodd bod yn fanwl gywir am yr effaith net ar niferoedd cyffredinol staff. Fodd bynnag, mae'r data yn awgrymu cynnydd o ryw 30 o staff yn ystod y flwyddyn.

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Cafodd 21.8% o staff ggwasanaethau a reoleiddir sy'n gweithio i Fro Morgannwg eu recriwtio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 0.1% o staff ggwasanaethau a reoleiddir sy'n gweithio i Wynedd.

Roedd 13.4% o bawb a adawodd gyflogaeth ggwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2017 wedi eu cyflogi gan Rondda Cynon Taf, tra bod dim ond 0.3% wedi eu cyflogi gan Sir y Fflint.

Gadawodd 9% o staff gofal preswyl mewn swydd mewn ggwasanaethau a reoleiddir ledled Cymru yn ystod 2017. Yn yr un cyfnod, gadawodd 8% o staff gofal cartref, 7% o staff gofal dydd ac arall a 2% of staff 'gofal cymysg' wasanaethau a reoleiddir[14].

**Ffigur 3: Canran y staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017[15]**




[13] Ni chyflwynodd un awdurdod lleol ddata am recriwtio a chadw staff.

[14] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol. Rydym yn ansicr am nifer y darparwyr yn ôl math o ddarpariaeth yn yr awdurdodau lleol hyn ac felly wedi hepgor eu data o'r adran hon.


[15] Gadawodd 100% o'r Staff Nyrsio Cogfrestredig a gynhwywyd yn y dadansoddiad (un aelod o staff) gyflogaeth gwasanaeth rheoleiddiedig yn ystod 2017. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei hepgor o'r siart er mwyn peidio ag ystumio'r siart.

Gwelir manylion pellach am staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwr gofal yn Ffigur 7 **Error! Reference source not found.**o Atodiad B.

Dengys **Ffigur 3** fod 8% o Ddirprwy Reolwyr/Rheolwyr Cynorthwyol wedi gadael cyflogaeth ggwasanaethau a reoleiddir yn ystod 2017. Mae hyn yn cymharu â 5% o Uwch Weithwyr Gofal.

O'r 48% o adawyr yr oedd eu cyrchfan yn hysbys, gadawodd 24% y sector, aeth 10% i weithio i ddarparwr gofal arall ac ymddeolodd 15%. Dengys **Ffigur 4** y sawl a adawodd y sector, y sawl a adawodd i weithio i ddarparwr gofal arall a'r sawl a ymddeolodd yn ôl awdurdod lleol.

**Ffigur 4: Canran y staff a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl cyrchfan, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




## Swyddi gwag

Gan Flaenau Gwent a Chaerffili oedd y ganran uchaf o swyddi gwag a adroddwyd (24%) am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru. Ni adroddodd bron hanner yr holl awdurdodau lleol yr un swydd wag. Roedd 73% o'r swyddi gwag a adroddwyd ar draws ggwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru am Weithwyr Gofal, Swyddogion Gofal neu Gynorthwywyr Gofal. Roedd hyn yn amrywio o 100% o swyddi gwag a adroddwyd yn Sir y Fflint a Thorfaen i 14% o'r swyddi gwag yng Ngheredigion. Roedd gan swyddi gwag a adroddwyd am Staff Eraill y ganran uchaf nesaf ar 9% o'r holl swyddi gwag.

# Nodweddion y gweithlu

Darparwyd data am amrywiol nodweddion y gweithlu am o leiaf 83% o staff ggwasanaethau a reoleiddir a gynhwysir yn y dadansoddiad hwn. Gwelir data am y gyfradd ymateb ar gyfer pob nodwedd yn **Tabl 3 Atodiad B**.

Ni ddarparodd un awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot) unrhyw ddata am nodweddion eu gweithlu ac eithrio iaith.

## Rhyw

Roedd y mwyafrif (88%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn fenyw. Roedd ychydig o dan un o bob wyth o'r gweithlu yn wryw. Roedd gan wasanaethau a reoleiddir Conwy y ganran uchaf o staff gwryw ar 36% tra bod gan wasanaethau a reoleiddir Sir y Fflint a Thorfaen y ganran isaf sef 0%.

## Oed

Roedd y mwyafrif (35%) o staff a weithiai i wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yn 51 i 60 mlwydd oed. Adlewyrchwyd hyn ar lefel leol hefyd. Ledled Cymru, roedd 25% o staff ggwasanaethau a reoleiddir yn 41 i 50 oed, ac roedd 15% yn 31 i 40 oed.

Gwelir manylion pellach am ystod oedran staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 8** o **Atodiad B**.

## Ethnigrwydd

O'r 83% o staff a gyflogwyd gan wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru yr adroddwyd eu hethnigrwydd, datganodd 79% eu hethnigrwydd fel Gwyn. Roedd yn well gan 20% o staff beidio â datgan eu hethnigrwydd. Dengys **Tabl 1** y dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol o ethnigrwydd staff ggwasanaethau a reoleiddir.

**Tabl 1: Canran y staff ggwasanaethau a reoleiddir yn ôl ethnigrwydd, yn ôl awdurdod lleol a rhanbarth, 2017**


%

| | Gwyn | Grwpiau ethnig cymysg/ lluosog | Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig | Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig | Grŵp ethnig arall | Gwell beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 99 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 98 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 68 | 1 | 1 | 0 | 0 | 30 |
| Sir y fflint | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 98 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Gogledd Cymru | 97 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Powys | 99 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ceredigion | 98 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Benfro | 99 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 91 | 0 | 0 | 0 | 1 | 8 |
| Canolbarth & Gorllewin | 93 | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 |
| Abertawe | 16 | 0 | 0 | 1 | 0 | 82 |
| Castell Nedd Port Talbot | - | - | - | - | - | - |
| Pen y Bont ar Ogwr | 97 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Bae'r Gorllewin | 40 | 0 | 0 | 1 | 0 | 59 |
| Bro Morgannwg | 94 | 0 | 2 | 3 | 1 | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 99 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Merthyr Tudful | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Torfaen | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sir Fynwy | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 |
| Casnewydd | 69 | 2 | 0 | 1 | 0 | 28 |
| Caerdydd | 93 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| De-Ddwyrain | 91 | 1 | 0 | 1 | 0 | 7 |
| **Cymru** | 79 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 |

## Oriau gweithio

Ledled Cymru, roedd 25% o staff ggwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn, tra bod 75% yn gweithio'n rhan amser. Roedd hyn yn amrywio o 78% o staff ggwasanaethau a reoleiddir yn gweithio'n amser llawn yng Nghonwy i 8% yn Abertawe. Dengys **Ffigur 5** y ganran ar lefel awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Ffigur 5: Canran y staff ggwasanaethau a reoleiddir yn ôl oriau a weithiwyd, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Gwelir manylion pellach am staff mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 9** **Error! Reference source not found.**o **Atodiad B**.

## Statws cytundebau

Roedd 79% o staff ggwasanaethau a reoleiddir yng Nghymru ar gontractau parhaol. Roedd hyn yn amrywio o 100% o staff ym Merthyr Tudful i 40% yn Abertawe.

Gwelir manylion pellach am statws contractiol staff am bob math o ddarparwr gofal yn **Ffigur 10** o **Atodiad B**.

## Statws anabledd


Nododd 1% o'r staff ggwasanaethau a reoleiddir a ymatebodd eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd. Roedd hyn yn amrywio o 2% o staff yn Sir Benfro i 0% mewn un ar ddeg awdurdod lleol arall.

## Iaith

Yng Nghymru, gallai 16% of staff mewn ggwasanaethau a reoleiddir gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod 1% o staff heb y Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf.

# Atodiad A – Y ffurflen casglu data

Cafodd y ffurflenni casglu data eu rhannu ag awdurdodau lleol yn Nhachwedd 2017. Cliciwch ar y ddelwedd isod, lle gallwch weld enghraifft o'r ffurflen. Sylwch mai fel enghraifft yn unig y mae Ynys Môn wedi cael ei defnyddio ac nad yw'r ffurflen yn cynnwys unrhyw ddata.



**Cyngor Sir Ynys Môn**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP)**
**Gweithlu Casglu Data 2017**

Canllawiau

DYLAI'R CASGLIAD DATA HWN GYNNWYS DIM OND Y CYFLOGEION HYNNY SY'N GWEITHIO O FEWN Y BWRDEISTREF SIROL.

Defnyddiwch yr hyper-ddolenni ar waelod pob tudalen i lywio i'r dudalen nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r sefydliad | | V |
| Cyfeiriad y sefydliad | | V |
| Enw'r cwmni rhiant | | Gwiriwch |

**Manylion cysyllt ar gyfer y berson sy'n cwblhau'r ffurflen**

| | | |
|---|---|---|
| Enw llawn | | V |
| Teitl swydd | | V |
| Rhif ffon | | V |
| Cyfeiriad e-bost | | V |

**Manylion y rheolwr cofrestredig (os yw'n wahanol i'r person sy'n llenwi'r ffurflen)**

| | | |
|---|---|---|
| Enw'r rheolwr cofrestredig | | Gwiriwch |
| Rhif ffon | | Gwiriwch |
| Cyfeiriad e-bost | | Gwiriwch |

Gallwch llywiwch drwy'r ffurflen gan ddefnyddio'r hyperddolenni glas o dan, neu drwy glicio ar dab y weithlen berthnasol.

| Adran | Oes unrhyw wallau dilysu? |
|---|---|
| Hafan | Oes |
| 1. Manylion y darparwr | Oes |
| 2. Cymwysterau | Oes |
| 3. Recriwtio a Chadw | Oes |
| 4. Gweithlu | Oes |

Gweler fy mhroffil gweithlu

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ffurflen cysylltwch â'r Uned Ddata ar: PIEnquiries@unedddatacymru.gov.uk

Sylwadau cyffredinol

Nesaf

# Atodiad B - Tablau ychwanegol

### Tabl 2: Nifer gwasanaethau awdurdod lleol a reoleiddir a arolygwyd[16]


| | 2017 |
|---|---|
| Ynys Môn | 8 |
| Gwynedd | 14 |
| Conwy | 3 |
| Sir Ddinbych | 6 |
| Sir y fflint | 1 |
| Wrecsam | 4 |
| Gogledd Cymru | 36 |
| | |
| Powys | 7 |
| Ceredigion | 5 |
| Sir Benfro | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 1 |
| Canolbarth & Gorllewin | 16 |
| | |
| Abertawe | 2 |
| Castell Nedd Port Talbot | 2 |
| Pen y Bont ar Ogwr | 12 |
| Bae'r Gorllewin | 16 |
| | |
| Bro Morgannwg | 5 |
| Rhondda Cynon Taf | 20 |
| Merthyr Tudful | 4 |
| Torfaen | 1 |
| Sir Fynwy | 4 |
| Casnewydd | 10 |
| Caerdydd | 4 |
| Blaenau Gwent a Chaerffili | 15 |
| De-Ddwyrain | 63 |
| | |
| **Cymru** | **131** |

[16] Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion cyfunol. Nid ydym yn sicr faint o ddarparwyr sydd wedi eu cynnwys yn eu hatebion.


### Tabl 3: Canran y ffurflenni a ddychwelwyd ar gyfer pob nodwedd, Cymru

| | % |
|---|---|
| | **2017** |
| Ethnigrwydd | 83 |
| Oriau a weithiwyd | 85 |
| Math o gontract | 88 |
| Rhyw | 88 |
| Oed | 88 |


### Ffigur 6a: Canran y staff gofal preswyl a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2017




### Ffigur 6b: Canran y staff gofal cartref a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2017





### Ffigur 6c: Canran y staff gofal dydd ac arall a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2017




**Ffigur 6ch: Canran y staff 'gofal cymysg' a gyflogwyd gan wasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir â'r cymwysterau gofynnol/ a argymhellir yn ôl rôl, Cymru, 2017**





**Ffigur 7a: Canran y staff gofal preswyl mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017**



**Ffigur 7b: Canran y staff gofal cartref mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017[17]**





**Ffigur 7c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017**





[17] Gadawodd 100% o'r Staff Nyrsio Cogfrestredig a gynhwywyd yn y dadansoddiad (un aelod o staff) gyflogaeth gwasanaeth rheoleiddiedig yn ystod 2017. Mae'r ffigur hwn wedi cael ei hepgor o'r siart er mwyn peidio ag ystumio'r siart.


**Ffigur 7ch: Canran y staff 'gofal cymysg' mewn swydd a adawodd wasanaethau a reoleiddir yn ôl rôl, Cymru, 2017**





**Ffigur 8: Ystod oedran staff gwasanaethau awdurdodao lleol a reoleiddir yn ôl math o wasanaeth, Cymru, 2017**




**Ffigur 9a Canran y staff gofal preswyl mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2017**





**Ffigur 9b: Canran y staff gofal cartref mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2017**




**Ffigur 9c: Canran y staff gofal dydd a gofal arall mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2017**




**Ffigur 9ch: Canran y staff 'gofal cymysg' mewn gwasanaethau a reoleiddir yn ôl yr oriau a weithiwyd, Cymru, 2017**



**Ffigur 10: Statws contractiol staff gwasanaethau awdurdodau lleol a reoleiddir yn ôl math o wasanaeth, Cymru, 2017**



**Data Cymru yn rhan o deulu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gennym gysylltiadau gweithio cadarn ac uniongyrchol â llywodraeth leol ers tro. Am flynyddoedd lawer rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion i wella drwy amrediad o gynhyrchion a gwasanaethau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer llywodraeth leol. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu defnyddio yn ogystal i gefnogi gwelliannau mewn sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat eraill.**

**Nod ein hystod o wasanaethau arbenigol yw eich helpu chi i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio'n effeithiol.**

**Am fwy o wybodaeth ewch i www.data.cymru neu ffoniwch 029 2090 9500.**